Porthaethwy – Mynedfa Ynys Môn
Menai Bridge – Gateway to Anglesey

ATGOFION O'R BORTH
Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy
Menai Bridge and District Civic Society
MEMORIES OF MENAI BRIDGE

Mae Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy yn diweddaru ei chofnodion, ffotograffau a'i Gwefan er mwyn ei gwneud yn haws i'r aelodau eu gweld. Byddwn yn ceisio ychwanegu at y rhain yn gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn cyhoeddi pigion gyda'ch Cylchlythyr. Mae croeso mawr bob amser i gyfraniadau newydd, yn ogystal â help i adnabod pobl yn y lluniau.

Ewch i'n Gwefan yn www.menaibridgecivicsociety.org.uk

Menai Bridge Civic Society is updating its records, photographs and Website to make them more accessible to members . We will try to add to these regularly throughout the year and publish extracts with your Newsletter. New contributions are always welcome , as is help with identifying people in photographs.

See our Website at www.menaibridgecivicsociety.org.uk

MENAI BRIDGE TIGERS

In the years immediately following the Second World War Anglesey foot-ball, along with the rest of the country, was enjoying a boom after having been starved of the game for six long years. This period is recalled vividly by **John Cowell** who, as a sixteen year old Friars schoolboy, played for the Menai Bridge club, known locally as 'The Tigers', during the 1947/48 season. And it was a very successful one as they retained the North Wales Coast Junior Cup, a non-age related competition for lower league teams, and the eighth time they had won it since 1912.

Playing conditions were very different from those of today. Most teams consisted almost entirely of local lads, and the Tigers were no exception. Players turned out purely for the love of the game, and John recalls that the only expenses he received was a shilling for his return bus fare from Bangor. And it was not unusual for boys to play for their school team on Saturday mornings and then to turn out for a local club in the afternoon. Nowadays, one hears of English Premier League managers complaining of players having to play two games in a week!

Unlike most other clubs, the Tigers had no changing room on the field. Instead, players used the Institute in Water Street and had to walk across the Square to and from the field. At half-time both teams were supplied with

On their return to the Institute, often covered in mud, there was no hot water available so the home players invariably went home to bath.

The Tigers competed each week in the Anglesey League, and in those days it was a tough one. Tackling was often brutal, with each team having at least one well-known 'clogger', and a sixteen year old had to learn very quickly in a man's world.

The Club was run by a dedicated Committee headed by Secretary Glyn Williams of Glyn Derw, himself a former player and brother of Idris, a formidable member of the team.

Other stalwarts were centre-half Tommy Lock, then in his early forties but still 'as hard as nails', free-scoring forwards Tommy Williams, Wyn 'Bach' and Eric 'Plas', along with two creative wing-halves in Cyril Jones and John 'S'. The only 'outsiders' were George Hawkes and Alan Popplewell, two Normal College students.

Football was then a leading spectator sport and the main leisure pursuit of those who had little else to occupy their Saturday afternoons. Very few households possessed a television set, and the few who did saw only the FA Cup Final and the odd international match. There was no 'Match of the Day' or live coverage of league matches so men became passionately involved in the fortunes of their local team. Consequently, the Tigers attracted large crowds at 'Cae Mwd' with the grassy bank above the touch-line, then largely devoid of trees, providing a good vantage point. Spectators were generally well-behaved and good-humoured with the usual harmless baiting of referees and opposing players, but with no malice in their caustic remarks.

Those were happy days, even in times of austerity and post-war rationing. In the years that followed the Tigers continued to prosper until higher living standards gradually brought changes in leisure habits. And with increasing television coverage of first-class matches, gates began to dwindle, illustrating vividly the nature of the social revolution which has taken place in recent times.

Roedd y clwb yn cael ei redeg gan bwyllgor ymroddedig dan arweiniad yr ysgrifennydd Glyn Williams o Glyn Derw, yntau yn gyn chwaraewr, ac yn frawd i Idris, aelod dygn o'r tîm. Aelodau cadarn arall oedd yr amddiffynnwr canol, Tommy Lock, yn ei bedwardegau cynnar ond dal 'mor galed â hoelion', ymosodwyr rhydd eu sgorio Tommy Williams, Wyn 'Bach' ac Eric 'Plas', ynghyd â dau asgellwr creadigol Cyril Jones a John 'S'. Yr unig ddau o'r 'tu allan' oedd George Hawkes ac Alan Popplewell, dau fyfyriwr o'r Coleg Normal.

Roedd pêl-droed yr adeg yna yn cael cefnogaeth eang a dyma oedd y prif weithgaredd hamdden i lawer ar brynhawn Sadwrn. Dim ond ychydig iawn o dai oedd â set deledu, ac wedyn yr unig gemau a ddarlledid oedd Cwpan yr FA ac ambell gêm ryngwladol. Doedd dim 'Match Of The Day' na sylw byw i gemau cynghrair felly roedd dynion yn cymryd diddordeb angerddol yn ffawd eu tîm lleol. O ganlyniad, denai'r Teigrod dyrfaoedd mawr yn 'Cae Mwd' gyda'r banc o laswellt uwchben y llinell ystlys, heb fawr o goed yno yr adeg honno yn cynnig lle da i wylio. Roedd y gwylwyr yn gyffredinol yn ymddwyn yn dda ac yn hwyliog gyda'r herian diniwed arferol tuag at y dyfarnwr a chwaraewyr y gwrthwynebwyr, ond heb ddim malais yn eu sylwadau deifiol.

Yn y blynyddoedd yn syth ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd pêl-droed Ynys Môn, ynghyd â gweddill y wlad, yn mwynhau ffyniant ar ôl i bobl gael eu llwgu o'r gêm am chwe blynedd hir. Mae'r cyfnod yma'n cael ei gofio'n glir gan **John Cowell** a oedd, fel bachgen ysgol Friars un ar bymtheg oed, yn chwarae i dîm Porthaethwy, oedd yn cael ei adnabod yn lleol fel ' Y Teigrod', yn ystod tymor 1947/48. Ac roedd yn un hynod lwyddiannus wrth iddynt gadw'r Cwpan, y 'North Wales Coast Junior Cup', cystadleuaeth lle nad oedd cyfyngiad oedran ar gyfer timau cynghreiriau is, a'r wythfed tro roeddent wedi ei ennill ers 1912.

Roedd yr amodau chwarae yn llawer gwahanol i'r rhai heddiw. Roedd y rhan fwyaf o dimau yn cynnwys hogiau lleol yn unig bron yn llwyr, a doedd y Teigrod ddim gwahanol. Roedd chwaraewyr yn troi i fyny oherwydd eu cariad at y gêm, ac mae John yn cofio mai'r unig gostau roedd yn ei dderbyn oedd swllt am ei docyn bws o Fangor. A doedd o ddim yn anarferol i hogiau chwarae i'w tîm ysgol ar foreau Sadwrn ac yna chwarae i glwb lleol yn y prynhawn. Y dyddiau yma, mae rhywun yn clywed am reolwyr Uwch Gynghrair Lloegr yn cwyno fod yn rhaid i'w chwaraewyr chwarae dwy gêm mewn wythnos!

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o glybiau eraill, doedd gan Y Teigrod ddim ystafelloedd newid ar y cae. Yn lle hynny, roedd chwaraewyr yn defnyddio'r Institiwt yn Stryd y Paced ac roedd rhaid iddynt gerdded ar draws y Sgwâr i'r cae ac yn ôl. Yn ystod hanner amser roedd y ddau dîm yn cael eu cyflenwi gyda phaneidiau o de wedi'u darparu gan griw o ferched caredig. Pan fyddent yn dychwelyd i'r Institiwt, yn aml yn fwd o'u corun i'w sawdl, doedd dim dŵr poeth ar gael felly roedd y chwaraewyr cartref yn mynd adref am fath bob tro.
Roedd y Teigrod yn cystadlu yn wythnosol yng Nghynghrair Ynys Môn, ac yn y dyddiau yna, roedd yn un caled. Roedd taclo yn aml yn frwnt, wrth i bob tîm feddu ar o leiaf un 'clogger' adnabyddus, ac roedd rhaid i fachgen un ar bymtheg ddysgu yn gyflym iawn ym myd dynion.

Roedden nhw'n ddyddiau hapus, hyd yn oed yn y cyfnod o lymder a dogni ar ôl y rhyfel. Yn y blynyddoedd a ddilynodd parhaodd Y Teigrod i ffynnu nes i safonau byw gwell ddod â newidiadau mewn arferion hamdden yn raddol. A gyda sylw ar y teledu i gemau o'r safon uchaf yn cynyddu, dechreuodd presenoldeb leihau, yn dangos yn glir natur y chwyldro cymdeithasol sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar.

Diolch i Mr Ieuan Williams am y lluniau.